# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 4 Mehefin 2026 yn brydlon am 7:00 yr hwyr yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom.

**Bydd cyfarfod Polisi yn cael ei gynnal o flaen y cyfarfod rhwng 6:30 – 7:00 i'r Cynghorwyr Euros Jones, Rhys Tudur, Angela Williams, Angharad Llwyd-Jones a'r Clerc.**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**
**Cynghorydd Euros Jones wedi cytuno i fod yn Gadeirydd am y flwyddyn tan mis Mai 2027. Clerc heb dderbyn ateb eto gan Cynghorydd Gareth Davies, ar ol gofyn wrtho fod yn Is-gadeirydd. Bydd angen llofnodi ffurflen datgan derbyn swydd.**

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 5 Mai 2026.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mai 2026.**

4. **Datgan buddiant personol.**

5. **Sedd wag yn Ward Llanystumdwy – wedi derbyn cadarnhad fod Mr Llyr Parry wedi derbyn.**

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

- **Ymgynghoriad ar gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd** - dyddiad cau 15.07.2026

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad**

**a) Tafarn y Plu, Llanystumdwy cais rhif C26/0227/41/CR** - Newidiadau i'r cais a ganiatawyd o dan cyfeirnod C22/0028/41/CR i gynnwys newid maint a nifer ffenestri, ymestyn rhan o'r estyniad i greu toiled hygyrch ac ymestyn y teras ar pen yr estyniad, gosod paneli solar, ail-lleoli'r mynediad i'r fflat a gosod ffliw newydd

**b) Tir rhwng Brynhyfryd/ Cae Capel, Chwilog cais rhif C25/0710/41/LL - codi 21 o dai fforddiadwy, creu mynedfa newydd i gerbydau o'r B4354 ynghŷd â gwaith cysylltiedig**

**Materion Un Llais Cymru**

8. **Cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru** - dydd Mercher 01.07.2026 ym Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt - bydd angen cofrestru o flaen llaw.

9. **Hyfforddiant –** mae Un Llais Cymru yn trefnu rhestr o wahanol hyfforddiant yn rhithiol bob mis. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn mynychu rhai ohonynt bydd angen hysybysu'r Clerc. Mae'r Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones am wneud yr un modiwl Cod Ymddygiad ar 15.06.2026 rhwng 6.30-8.00 yr hwyr.

**Materion yn y gymuned.**

10. **Llanystumdwy**
a) **Carnifal 10.07.2026** – cais gan Osian Rhys Roberts, yn dweud fod Menter y Plu (ynghyd â'r aelwyd a'r Clwb Pêldroed) yn bwriadu trefnu carnifal yn Llanystumdwy eto eleni. Byddant yn trefnu gorymdaith o'r ysgol i'r maes parcio, ac yn cynnal gweithgareddau a 'gig' yn y neuadd. Gofyn am gael cefnogaeth y Cyngor Cymuned er mwyn gallu cau y ffordd trwy Gyngor Gwynedd yn ddi-gost (Bydd rhaid talu swm sylweddol heb gefnogaeth y Cyngor Cymuned).

Os yw'r Cyngor yn cytuno, bydd angen i'r Clerc anfon llythyr cefnogol i gadarnhau ei bod yn cefnogi hynny.

11. **Chwilog**
a) Adran Cynllunio/Gorfodaeth - Clerc wedi gofyn am ddiweddariad ynglyn â'r mater isod, ac wedi gofyn am ymateb cyn 04.06.2026.

- **Ty'n Ffridd, Chwilog** sefyllfa parthed y carafannau sydd wedi ei gosod heb ganiatad y tu ol i Ty'n Ffridd, Chwilog yn dilyn dyfarniad yr apêl.
- **Ty'n Lôn, Chwilog** gan fod mynedfa i'r cae carafannau yn y lle anghywir.
- **Tir ger Mynwent Llanystumdwy** - safle tir ar yr ochr dde wrth edrych ar y fynedfa i Fynwent Llanystumdwy. Teulu Carafannau Evans wedi prynu'r safle rai blynyddoedd yn ol, ac wedi rhoi llawr caled yno i gadw offer/peiriannau. Lon bach yn mynd i lawr o'r lon fawr i'r cefn o'r golwg.

b) **Twmpath arafu traffig newydd ger Neuadd Chwilog** – cwynion fod y twmpath arafu yn rhy uchel a bod perygl o gerbydau yn malu ei ceir.
Cysylltodd y Clerc hefo Mr Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd ac fe wnaeth gadarnhau fod hwn yn waith oedd wedi ei raglennu. Dywedodd fod yr hen dwmath dros y ffordd i'r stad yn cael ei dynnu, ac mae lleoliad y twmpath newydd eisoes wedi cael ei gytuno. Mae hwn yn waith sy'n cael ei gyflawni gan ddatblygwr stad Cae Bodlondeb, gan roedd yr hen dwmpathau gyferbyn â mynediad y stad.
Maent wedi cael dyluniad yn unol â'r canllawiau sy'n llywodraethu'r ddarpariaeth. Mae'n bosib fod y crymder ('camber') ynghanol y ffordd yn ei wneud yn uwch, ond dylai cyflenwyr proffesiynol gymryd hyn i ystyriaeth. Ni ddylai uchder mwyaf y twmpath fod yn uwch na 100mm, ond fel arfer maent yn gweithio ar uchder o i 75mm.
Bydd yn cysylltu â'r cyflenwyr i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau cywir.

12. **Rhoslan/Ynys**
13. **Pencaenewydd/Sardis**
14. **Llangybi**

15. **Materion Ariannol**
**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**
Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.05.2026. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **Archwilio mewnol 01.04.2025 – 31.03.2026** – Clerc yn y broses o gasglu'r wybodaeth am y flwyddyn diwethaf, er mwyn ei anfon at Adran Archwilio Cyngor Gwynedd.

17. **Archwilio allanol llynedd 2024-2025** – y Clerc newydd dderbyn cadarnhad gan Archwilio Cymru (28.05.2026) fod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau a bod popeth yn iawn. Mae'r Clerc wedi rhoi copi ohono ar wefan y Cyngor, a'r hysbysiad sydd yn rhoi hawl i etholwyr llywodraeth leol ardal y cyngor cymuned ei gweld.
Cadarnhawyd, "ar sail yr archwiliad nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw i roi achos pryder".

Fe wnaeth argymell yr isod:-

- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** - dylid cwblhau'r archwiliad mewnol cyn ei gymeradwyo yn y cyfarfod blynyddol.
- **Gwariant Adran 137**, roedd y argymell y dylid rhoi cyfraniad i'r Ffermwyr Ifanc gael ei gofnodi o dan yr uchod.
- **Cynllun Hyfforddi** – angen cyhoeddi cynllun ar gyfer hyfforddiant cynghorwyr a staff, a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn, yn cynnwys manylion am y math o hyfforddiant, amserlen a chost. Mae gennym gynllun hyfforddi ar y wefan eisioes, ond mae angen cynnwys y wybodaeth uchod arno a'i ddiweddaru.

18. **Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gan Gwynedd Ni** – yn dilyn y cyfarfod diwethaf, derbyniodd y Clerc y wybodaeth isod:-

**a) Offer 'tylluan' sain/ sgrin deledu/stand** – cynnig prynu offer ar gyfer Neuadd Llanystumdwy a Neuadd Chwilog. Byddai hyn yn galluogi cynnig cyswllt technoleg/ sain gwell ar gyfer y gwahanol fudiadau/cyfarfodydd sydd yn defnyddio'r neuaddau. Derbyniwyd ymateb gan neuaddau Chwilog a Llanystumdwy yn gwerthfawrogi derbyn yr offer i'w defnyddio o fewn y neuaddau.

Derbyniwyd pris am yr offer isod gan Cwmni Cyfrifiaduron Porthmadog:-

| Offer | Pris yn cynnwys TAW |
|---|---|
| 'Owl 3' | £999.00 x 2 = £1998.00 |
| Teledu 32" | £179.00 x 2 = £ 358.00 |
| 'Stand' teledu | £ 99.99 x 2 = £ 199.98 |
| Cyfanswm | £2555.98 yn cynnwys TAW (heb TAW £2129.98) |

- Derbyniwyd ateb gan Alys Rees Jones yn dweud, "fod y syniad yma'n gymwys ond bydd angen sicrhau bod yr asedau (sain a sgrin deledu) yn nwylo'r Neuadd yn barhaol a ddim yn cael eu defnyddio fel offer symudol.

**b) Cae chwarae Chwilog** –
Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf ar 05.05.2026 roedd bwriad o gael **pris i wneud grisiau neu ramp i fynd at y llecyn chwarae o fewn y cae chwarae ein hun.**
Cysylltodd y Clerc hefo Mr Llifon Foulkes, i ofyn am ganiatâd i ni holi am bris er mwyn cael gwneud hyn. Mae llethr serth yn mynd i lawr at yr offer chwarae sydd yno, a byddai hyn o gymorth i fynd at y cae chwarae. Mae rhieni yn y pentref wedi bod yn galw am wellianau ers tro.

Fe drefnwyd cyfarfod safle (22.05.2026) rhwng Cynghorydd Rhys Tudur, Mr Gwyn Williams Archwiliwr Meysydd Chwarae Cyngor Gwynedd, Mr Gareth Lewis Jones, Contractor a'r Clerc. Penderfynodd Mr Gwyn Williams, gyda chefnogaeth Mr Llifon Foulkes argymell yr isod:-

- **Mynedfa** - byddai'n well iddyn nhw (Cyngor Gwynedd) drefnu datrys y broblem o'r llwybr mynedfa cyntaf i'r cae i beiriannau. Roedd Mr Gareth Jones o'r farn y byddai

dipyn o gostau ail wneud y rhan yma, ac yn meddwl byddai'n well ail drefnu y ffens bresennol drwy roi dwy giat arall ychydig yn fwy i alluogi mynediad i beiriant. Mae Mr Gwyn Williams felly am drafod hyn gyda Adra, a bydd rhaid penderfynu pwy sydd yn gyfrifol am gostau y gwaith yma, un a'i Adra neu Cyngor Gwynedd.

- **<u>Ramp concrid</u>** – mae Cyngor Gwynedd am ariannu y rhan yma o'r gwaith. Maent am ofyn wrth Mr Gareth Lewis Jones i roi pris i wneud hyn hefo 'rheiliau' diogelwch ym mhen draw y 'platform' oherwydd ei fod yn gostwng yn barod yma felly y raddfa llawer llai. Maent hefyd am osod safle concrid a rhoi bwrdd picnic arno yn y gornel.

- **<u>Gosod ffram ddringo Sutcliff gyda llawr newydd</u>**. Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu archebu offer i'r cae chwarae. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy'r cyllid o £10,000.00, sydd yn arian '106' gan ddatblygwyr Cae Bodlondeb, a'r gweddill gan Cyngor Gwynedd. Cyfanswm yr offer yw £16,563.65.

Felly, oherwydd nad oedd yn bosib datrys y fynedfa cyn ganol Mehefin, argymhellwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi balans yr arian o £4,870.02 sydd ar ol o'r arian Grant Gwynedd Ni, tuag y gost o brynu'r ffram ddringo. Mi fydd y grant a dderbynir o'r offer sain heb TAW yn £2129.98 felly bydd £4,870.02 ar ol i'w roi tuag at brynu offer cyfarpar chwarae. Mae'r dyddiad cau ar 15.06.2026, a bydd angen defnyddio'r arian, a gosod yr offer cyn diwedd Rhagfyr 2026.

Bwriad y gronfa yw cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus ac yn cyfrannu at adfywio lleol. Cyfanswm y cyllid eleni yw **<u>£7,000.00.</u>**

19. **<u>Taliadau</u>** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Capel M.C. Pencaenewydd | Llogi Festri 5 gwaith, 08.01.26, 05.02.26, 05.03.26, 02.04.26 a 05.05.26 | **<u>100.00</u>** | | **<u>100.00</u>** | **<u>100.00</u>** |

20. Cyflog mis Mai 2026 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2026<br>35 awr y mis x £19.32 = **<u>£676.20</u>** a | £676.20<br>Llai treth-<br>£135.40 =<br>**<u>£540.80</u>** | **<u>540.80</u>** | **<u>540.80</u>** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mai 2026<br>£677.00 x 20% = £135.40 | **<u>£135.40</u>** | **<u>135.40</u>** | **<u>135.40</u>** |
| Costau swyddfa Clerc Mai 2026 | **<u>26.00</u>** | **<u>26.00</u>** | **<u>26.00</u>** |

21. **<u>Materion hwyr</u>**

Bydd angen penderfynu os mai ar nos Iau 02.07.2026 fydd y cyfarfod nesaf a threfnu lleoliad.